





Y Brenin Asa yn trystio Duw


1 Brenhinoedd 15: 9-15, 2 Cronicl 14:1-15, 15: 1-19



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
1 Brenhinoedd 15: 9-15, 2 Cronicl 14:1-15, 15: 1-19		
1 Pan fu farw'r Abeia brenin Jwda, daeth Asa ei fab yn frenin yn ei le.		
2 Roedd Asa yn gwneud beth oedd yn plesio'r ARGLWYDD. Dwedodd bod rhaid cael gwared â'r holl eilunod ffaidd roedd ei gyndadau wedi eu gwneud.		
3 Dyma fe'n cael gwared â'r allorau paganaidd a'r temlau lleol, malu'r colofnau cysegredig a thorri i lawr bolion y dduwies Ashera. Dyma fe'n dweud wrth bobl Jwda fod rhaid iddyn nhw addoli'r ARGLWYDD, a cadw ei ddysgeidiaeth a'i orchmynion.		

-
- 4 Roedd heddwch yn y wlad pan oedd e'n frenin. Dyma Asa'n adeiladu trefi amddiffynnol yn Jwda tra roedd y wlad yn dawl. Doedd dim rhyfel yn y cyfnod hwnnw am fod yr ARGLWYDD wedi rhoi heddwch iddo.



-
- 5 Roedd gan Asa 300,000 o filwyr yn Jwda yn cario tariannau mawr a gwaywffyn. Gyda nhw roedd 280,000 o ddynion o lwyth Benjamin wedi eu harfogi gyda thariannau bach a bwasaeth. Roedden nhw i gyd yn filwr profiadol.



-
- 6 Un tro dyma Serach o Cwsh yn Nwyrain Affrica (Ethiopia) yn ymosod arny'n nhw.




-
- 7 Roedd ganddo fyddin o filiwn o ddynion a thri chant o gerbydau rhyfel.



-
- 8 Wrth iddyn nhw gyrraedd Maresha roedd Asa a'i fyddin yn Nyffryn Seffatha (heb fod yn bell o Maresha) yn paratoi i'w gwrthwynebu.




-
- 9 Dyma Asa'n gweddïo ar yr ARGLWYDD ei Dduw: " ARGLWYDD, dim ond ti sy'n gallu helpu'r gwan pan mae byddin enfawr yn dod yn eu herbyn nhw. "



-
- 10 Wrth weld byddin enfawr Cwsh yn ei wrthwynebu galwodd Asa ar Dduw, "Helpa ni ARGLWYDD ein Duw, dŷn ni'n dibynnu arnat ti. Dŷn ni wedi dod allan yn erbyn y fyddin enfawr yma ar dy ran di."



-
- 11 Roedd Asa yn ymladd yn enw'r Arglwydd ac yn ei drystio. Gweddïodd Asa, "O ARGLWYDD ein Duw, paid gadael i ddyn ennill yn dy erbyn di."




-
- 12 Brwydrodd byddin Asa yn erbyn milwyr Cwsh.



-
- 13 Dyma'r ARGLWYDD yn galluogi'r brenin Asa a byddin Jwda i orchfygu'r fyddin o Cwsh yn Nwyrain Affrica. Dyma'r Affricanwyr yn ffoi gydag Asa a'i fyddin yn mynd ar eu holau.



-
- 14 Cafodd byddin Cwsh ei difa'n llwyr gan yr ARGLWYDD a'i fyddin.



-
- 15 Dyma byddin Asa'n concro'r trefi o gwmpas Gerar i gyd, am fod yr ARGLWYDD wedi gwneud i'r rheiny banicio. A dyma filwyr Jwda yn casglu llwythi o bethau gwerthfawr o'r trefi hynny - defaid, geifr a chamelod.



-
- 16 Dyma ysbryd Duw yn dod ar Asareia fab Oded, a dyma fe'n mynd at y brenin Asa a dweud: "Gwrandwch arna i, Asa a phobl Jwda a Benjamin i gyd. Bydd yr ARGLWYDD gyda chi tra dych chi'n ffyddlon iddo fe. Bydd e'n ymateb pan fyddwch chi'n ei geisio. Ond os byddwch chi'n troi'ch cefn arno, bydd e'n troi ei gefn arnoch chi.



-
- 17 Roedd Israel heb y Duw go iawn am amser maith, heb offeiriaid i'w dysgu ac heb Gyfraith. Ond yn eu helynt dyma nhw'n troi at yr ARGLWYDD, Duw Israel. Dyma nhw'n ei geisio, a dyma fe'n ymateb. Yr adeg yna doedd hi ddim yn saff i neb fynd a dod, am fod yna helyntion ofnadwy yn y gwledydd i gyd. Ond byddwch chi'n ddewr a pheidio llaesu dwylo, oherwydd fe gewch chi wobwr am eich gwaith."



-
- 18 Roedd Asa'n teimlo'n llawer mwy hyderus ar ôl clywed beth ddwedodd y proffwyd Asareia fab Oded. Dyma Asa'n trwsio'r allor oedd o flaen cyntedd templ yr ARGLWYDD. Dyma nhw'n aberthu i'r ARGLWYDD rai o'r anifeiliaid roedden nhw wedi eu cymryd yn ysbail, gan gynnwys saith gant o wartheg a saith mil o ddefaid. Wedyn dyma nhw'n gwneud ymrwymiad i geisio yr ARGLWYDD, Duw eu hynafiaid, o ddifrif. Dyma nhw'n tyngu llw i'r ARGLWYDD gan weiddi, canu utgyrn a chwythu'r corn hwrdd.



-
- 19 Dyma Asa'n dal ati i gael gwared â'r holl eilunod ffaidd oedd yn Jwda a Benjamin. Hefyd diswyddodd ei nain, Maacha, o fod yn fam-frenhines, am ei bod wedi gwneud polyn Ashera ffaidd. Torrodd y polyn i lawr, ei falu'n fân, a'i losgi wrth Nant Cidron.



-
- 20 Er ei fod heb gael gwared â'r allorau lleol yn Israel roedd Asa yn ffyddlon i'r ARGLWYDD ar hyd ei oes. Fuodd dim rhyfel arall am 20 mlynedd.



-
- 21 Daeth y Brenin Asa â'r celfi roedd e a'i dad wedi eu cysegru (rhai aur, arian, a llestri eraill), a'u gosod yn nheml Dduw.



22 (Mae yn hanes arall yn y
gyfres, 'Y Brenin Asa yn
gwrthod trystio Duw'.)
Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed
by FreeBibleImages for free download under the terms of the
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
